Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn symudol:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?**

   ☐ Unigolyn
   ☒ Sefydliad

**[os 'Unigolyn' ewch i C2, os Sefydliad ewch i C3]**

2. **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich statws orau.**

   ☐ Aelod o'r teulu neu ffrind sydd wedi colli rhywun drwy laddiad domestig
   ☐ Aelod o'r teulu neu ffrind sydd wedi colli rhywun drwy fath arall o farwolaeth yn ymwneud â cham-drin domestig (nid lladdiad)
   ☐ Academydd / ymchwilydd / myfyriwr
   ☐ Arall (noder):

3. **Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio'ch cysylltiad orau.**

   ☐ Asiantaeth gorfodi'r gyfraith (yr heddlu, corff heddlua, Gwasanaeth Erlyn y Goron)
   ☐ Sefydliad gofal iechyd
   ☐ Awdurdod lleol
   ☐ Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

☐ Sefydliad addysgiadol neu gorff myfyrwyr

☒ Elusen / darparwr gwasanaeth trais yn erbyn menywod a merched

☐ Arall (noder)*:*

**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodau'n cynnwys 20 o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneuaidd, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn dyfarnu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS yma).


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962
Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

***<u>Diffiniad o Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD)</u>***

Mae deddfwriaeth ALlD cyfredol yn nodi y dylai ALlD gael ei ystyried mewn enghreifftiau lle mae 'marwolaeth person sydd yn 16 oed neu fwy wedi deillio, neu'n ymddangos fel pe bai wedi deillio, o drais, cam-drin neu esgeulustod gan (a) person y mae'n perthyn iddo neu yr oedd neu roedd wedi bod mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu (b) aelod o'r un aelwyd ag ef'.

Cyflwynodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 ddiffiniad statudol o gam-drin domestig sy'n cwmpasu ystod o gamdriniaethau tu hwnt i 'drais, cam-drin ac esgeulustod' i gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, a cham-drin emosiynol ac economaidd. Byddai cynnwys y diffiniad hwn yn glir yn y ddeddfwriaeth ALlD yn sicrhau bod ALlDau yn parhau i gyfrannu at ein dealltwriaeth o Gam-drin Domestig, ac yn cofnodi gwersi i atal cam-drin domestig angheuol.

4. **Ydych chi'n ffafrio diweddaru deddfwriaeth ALlD fel bod ALlD yn cael ei ystyried ar gyfer pob marwolaeth sy'n ganlyniad neu'n ymddangos ei bod yn ganlyniad cam-drin domestig, yn ôl y diffiniad o gam-drin domestig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 (gweler isod)?**

   ☒ Ydw
   ☐ Nac ydw
   ☐ Ddim yn gwybod
   Rhowch sylw os gwelwch yn dda

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r cyfle a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i rannu ein barn ar ddiwygio Adolygiadau Lladdiadau Domestig ("DHR or review") ac yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddysgu mwy am hunanladdiadau sy'n digwydd yng nghyd-destun cam-drin domestig ac i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu i leihau nifer y lladdiadau domestig[1]. Rydym yn hapus i ddarparu unrhyw dystiolaeth lafar i'r Swyddfa Gartref, os oes angen. Yn ein hymateb rydym am ganolbwyntio fwyaf ar sefyllfaoedd o gam-drin partner agos a cham-drin gan aelodau o'r teulu. Rydym yn ffafrio'n gryf ddiweddaru deddfwriaeth ALlD er mwyn ei unioni â'r diffiniad a ddarparwyd yn Neddf Cam-Drin Domestig 2021 ('y Ddeddf'). Buom yn gweithio'n galed fel Cymorth i Ferched Cymru i ddylanwadu a bod yn rhan o ddatblygiad y Ddeddf o'r cychwyn, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn addas ar gyfer anghenion goroeswyr[2]. Rydym yn credu'n gryf fod y Ddeddf yn gyfle gwirioneddol i hwyluso ymateb cenedlaethol i gam-drin domestig a phob ffurf ar drais yn erbyn

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1064427/E02735263_Tackling_Domestic_Abuse_CP_639_Accessible.pdf, page 5 and 8.
[2] https://hansard.parliament.uk/commons/2020-06-04/debates/53d6764e-24e5-4287-8e40-fc3690d696b1/DomesticAbuseBill(SecondSitting).

menywod a merched, a dylai deddfwriaeth a chanllawiau ALlD gyfunioni â'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae diweddaru deddfwriaeth ALlD a chynnwys y diffiniad statudol a ddefnyddiwyd yn Neddf Cam-Drin Domestig 2021, yn caniatáu dealltwriaeth llawer ehangach o'r mathau gwahanol o gam-drin, o'i gymharu â'r defnydd presennol o "drais, cam-drin, neu esgeulustod" [3]. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi ac yn cydnabod plant fel goroeswyr yn eu hawl eu hunain, p'un a ydynt wedi profi, gweld, neu glywed effeithiau'r trais neu beidio[4]. Wrth weithredu'r diffiniad statudol hwn, credwn fod angen ei gwneud hi'n hollol glir o fewn y canllawiau statudol fod plant yn oroeswyr yn eu hawl eu hunain a bod effaith y golled yn glir drwy gydol yr adroddiad. Mae hefyd yn rhaid sicrhau bod canllaw yn cael ei greu ar arfer gorau o ran ymgysylltu a diogelu plant sy'n cyfranogi mewn ALlD'au.

**Argymhelliad 1: Mae'n rhaid i'r canllawiau statudol gynnwys fod plant yn oroeswyr yn eu hawl eu hunain a bod effaith y golled arnynt yn glir drwy gydol yr adroddiad. Dylid darparu canllawiau pellach ar arfer gorau o ran ymgysylltu a diogelu plant sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau.**

**Symud o 'aelod o'r un aelwyd' at 'cysylltiad personol'**

Yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae rhan b yn nodi y dylid cynnal adolygiad pan fydd aelod o'r un aelwyd dan sylw[5]. O dan y newidiadau arfaethedig newydd sy'n awgrymu defnyddio'r diffiniad statudol o gam-drin domestig, byddai hyn yn newid i "cysylltiad personol" [6]. Er ein bod yn cydnabod y byddai'r newid hwn yn allgau sefyllfaoedd o drais mewn tai amlfeddiannaeth, lle nad oes perthynas agos neu deuluol, rydym yn pryderu y gall symud i ffwrdd o grybwyll bod yn aelod o'r un aelwyd at fod â chysylltiad personol olygu na fyddai rhai achosion yn cael eu hadolygu, a fyddai ar hyn o bryd yn sbarduno ALlD. Byddai hyn wedyn yn golygu colli gwersi a geir drwy'r fath achosion, a gallai yn sgil hynny fod yn fwy anodd atal sefyllfaoedd o'r fath.

Nid yw Lladdiadau Domestig wedi'u cyfyngu i berthnasoedd rhwng partneriaid agos, gallant hefyd gynnwys sefyllfaoedd teuluol[7] a pherthnasoedd eraill. Fel y pwysleisia'r Comisiynydd Cam-Drin Domestig, rydym yn pryderu na fyddai'r mathau canlynol o sefyllfaoedd yn dod o dan y categori newydd hwn o "gysylltiad personol".

[3] Domestic Violence, Crime and Victims Act 2004, Section 9, Part 1.
[4] Domestic Abuse Act 2021, Part 1, Section 3.
[5] Domestic Violence, Crime and Victims Act 2004, Section 9. Part 1 (b).
[6] Domestic Abuse Act, 2021, Part 1, Section 2.
[7] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1143045/domestic-homicide-sentencing-review.pdf, page 7.

- Dau berson sy'n byw yn yr un cartref, ond mae eu perthynas wedi ei guddio oddi wrth deulu a ffrindiau am resymau megis credoau diwylliannol a chrefyddol neu rywioldeb.
- Gofalwyr[8] neu pan fo person bregus wedi bod yn destun cam-fanteisio neu gam-drin[9], ac mae'r ymddygiad yn y perthnasoedd hyn yn ymdebygu i orfodaeth neu reolaeth.
- Sefyllfaoedd lle mae aelodau o deulu'r dioddefwr yn cael eu targedu a'u herlid[10].

Wrth ystyried ALlD, credwn fod angen eglurhad ynglŷn â pham nad yw'r rheiny sy'n byw yn yr un tŷ yn diwallu gofynion "cysylltiad personol" a bod cysylltiad perthynol â cham-drin domestig wedi ei archwilio a heb ei ganfod.

**Argymhelliad 2: Dylai'r Swyddfa Gartref ystyried sut i sicrhau nad yw symud o 'yr un aelwyd' at 'cysylltiad personol' yn allgau achosion perthnasol oddi wrth proses ALlD.**

**Argymhelliad 3: Fel y nodir gan y Comisiynydd Cam-Drin Domestig, dylai'r Swyddfa Gartref ystyried gosod yn y canllawiau statudol pan fo marwolaeth yn digwydd - a'u bod yn preswylio ar yr un aelwyd - fod yn rhaid i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyfiawnhau eu penderfyniad i beidio ag adolygu hyn a bod cysylltiad perthynol i gam-drin domestig wedi cael ei archwilio ond heb ei ganfod.**

## Safbwynt sy'n seiliedig ar rywedd

Mae cam-drin domestig yn drosedd ryweddol, ac amcangyfrifir bod 1 ym mhob 4 menyw yn goroesi cam-drin domestig yn ystod eu bywyd[11]. Rhwng Hydref 2019 a Medi 2020, mae ystadegau ALlD'au yn nodi bod 80% o'r dioddefwyr yn fenywod, tra bod 83% o'r troseddwyr yn ddynion[12]. Mae lladd menywod dan law eu partneriaid agos neu eu partneriaid agos blaenorol yn broblem beryglus o ran iechyd cyhoeddus, cyfiawnder troseddol a chymdeithasol[13], ac rydym yn credu'n gryf fod yn rhaid i natur ryweddol cam-drin domestig fod yn bresennol mewn deddfwriaeth. Mae'n bwysig cydnabod y diwylliant, y naratifau a'r safbwyntiau sydd ynghlwm ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail rhywedd sy'n sail i drais yn erbyn menywod a merched, er mwyn deall sut a pham fod unigolyn yn dioddef camdriniaeth. Nid oes gan Ddeddf Cam-Drin Domestig 2021 ddiffiniad rhyweddol ar gyfer

---

[8] https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtddab/2075/2075.pdf , page 16. The ability of carers to be excluded from the definition of domestic abuse and the recognition that abuse can occur in a domestic situation.
[9] Jimmy Prout death: Chances missed to save him - report - BBC News
[10] Tendring-DHR-2015-1.pdf (domestichomicide-halt.co.uk).
[11] https://igpp.org.uk/event/Tackling-Domestic-Violence-and-Abuse-2023/.
[12] https://www.gov.uk/government/publications/key-findings-from-analysis-of-domestic-homicide-reviews/key-findings-from-analysis-of-domestic-homicide-reviews.
[13] https://eprints.glos.ac.uk/6896/1/6896%20Monckton-Smith%20%282019%29%20Intimate%20Partner%20Femicide%20using%20Foucauldian......pdf, page 1.

cam-drin domestig, a thra bod Cyd-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin, ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, wedi galw am ddiffiniad rhyweddol o gam-drin domestig, ni chyflwynwyd hyn[14]. Mae'r canllawiau statudol ar y Ddeddf yn nodi fod trais neu gam-drin yn effeithio'n anghyfartal ar fenywod; fodd bynnag, credwn fod yn rhaid cynnwys natur ryweddol y fath drais wrth ddiweddaru deddfwriaeth ALlD a'r canllawiau statudol. Pan nad yw natur ryweddol cam-drin domestig yn cael ei deall, ni fydd yr ALlD yn drylwyr ac ni fydd yn cyfrannu'n llwyddiannus at atal cam-drin. Mae'n rhaid herio'r naratifau, credoau a'r safbwyntiau hyn sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb rhyweddol a misogynistiaeth, ac o dan Gonfensiwn Istanbwl[15] rydym wedi ein cymell i arddangos dealltwriaeth ryweddol o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, fel sail ar gyfer pob mesur diogelwch a chefnogaeth i ddioddefwyr.

**Argymhelliad 4: Credwn y dylai'r Swyddfa Gartref gynnwys cymal yn y ddeddfwriaeth ALlD sy'n cydnabod natur ryweddol cam-drin domestig, a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y canllawiau statudol.**

**Cryfhau canllawiau statudol**

Tra bod diweddaru deddfwriaeth ALlD yn hanfodol er mwyn sicrhau bod diffiniad statudol cam-drin domestig yn gyflin, mae'n bwysig fod canllawiau statudol sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â chymhwysedd y ddeddfwriaeth hefyd yn cael ei ddiweddaru.

Mae'r canllawiau statudol presennol yn pwysleisio y gellir cynnal adolygiad pan fo dioddefwr wedi lladd ei hun a bod yr amgylchiadau'n codi pryderon, megis bod mewn perthynas o reolaeth drwy orfodaeth[16]. Ni ddarperir gwybodaeth bellach o fewn y canllawiau ynglŷn â chomisiynu adolygiadau ar hunanladdiadau dioddefwyr sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Yn ddiweddar mae tystiolaeth newydd wedi dod i law sy'n dangos fod yna nifer o hunanladdiadau ymhlith dioddefwyr sydd â hanes hysbys o gam-drin domestig, er ei bod yn debygol fod hyn wedi'i amcangyfrif yn rhy isel gan na fydd nifer ohonynt wedi cael unrhyw brofiad hanesyddol blaenorol gyda'r heddlu yn ymwneud â cham-drin domestig ac ni fyddai'r cysylltiad wedi ei wneud[17]. Yn 2022, dyfarnodd cwest gan grwner mewn achos o hunanladdiad menyw mai'r rheswm gwaelodol dros yr hunanladdiad oedd cam-drin domestig, a bod angen gwell cydnabyddiaeth o'r cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunan-laddiad

[14] https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtddab/2075/2075.pdf, page 77.
[15] Council of Europe Convention on preventing and combating violence against women and domestic violence.
[16] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575273/DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf, page 8.
[17] https://www.vkpp.org.uk/assets/Files/Domestic-Homicides-and-Suspected-Victim-Suicides-2021-2022/VKPP-Domestic-Homicides-and-Suspected-Victim-Suicides-2020-2021.pdf, page 13.

er mwyn atal marwolaethau yn y dyfodol[18]. Mae pryderon wedi eu nodi mewn perthynas â diffyg diffiniad a diffyg arweiniad sylweddol mewn achosion o farwolaeth drwy hunanladdiad dioddefwyr cam-drin domestig, a bod penderfyniadau comisiynu yn aml yn gymhleth gan nad yw hi'n glir a ddylai achos gael ei adolygu[19]. Sut bynnag mae'r Swyddfa Gartref yn penderfynu enwi hunanladdiadau dioddefwyr sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, mae'n rhaid cael ymrwymiad i sicrhau bod y canllawiau statudol yn darparu gwybodaeth helaeth am gymhwysedd y ddeddfwriaeth yn yr amgylchiadau hyn. Mae'n hanfodol fod y marwolaethau hyn yn cael eu nodi er mwyn sicrhau gwersi i atal rhagor yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5: Mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref ymrwymo i sicrhau bod canllawiau statudol wedi'u datblygu'n drylwyr ar gyfer hunanladdiadau a marwolaethau heb esboniad, er mwyn sicrhau bod adolygiadau'n cael eu comisiynu pan fo angen.**

Ynghyd â'r eglurhad uchod, rhaid darparu canllawiau pellach ynglŷn â'r mathau gwahanol o gam-drin domestig, megis yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd a rheolaeth drwy orfodaeth, a sut y gellir adnabod y rhain. Yn yr adolygiad Annibynnol a gynhaliwyd gan Clare Wade KC ar ALlD'au, nodwyd bod rheolaeth drwy orfodaeth yn dal i fod yn faes nad yw pobl yn ei ddeall yn iawn, sy'n golygu ei fod yn cael ei anwybyddu mewn achosion o laddiadau partner agos[20]. Er bod Deddf Cam-Drin Domestig 2021 wedi cyflwyno diffiniad statudol o gam-drin domestig, ac er nad yw wedi ei grybwyll yn benodol o fewn y ddeddfwriaeth, cafodd yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd ei nodi o fewn y canllawiau statudol. Fodd bynnag, yn 2023 mae'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb wedi cadarnhau bod y diffyg o ran casglu data yn parhau. Mae hyn yn dangos bod diffyg dealltwriaeth sylweddol yn parhau ynglŷn â beth yw'r ffurf hon o gam-drin. Gellir trefnu yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd gan bartner presennol neu flaenorol, eu teulu ond hefyd y gymuned yn ehangach, sy'n debygol o ddod o dan ddarpariaeth 'cysylltiad personol' y Ddeddf.

Gan ein bod wedi crybwyll yn flaenorol nad yw'r ddeddfwriaeth ALlD ar hyn o bryd yn crybwyll rhywedd, rydym yn credu y dylai'r canllawiau statudol gynnwys gwybodaeth benodol ar gymhlethdodau cam-drin domestig mewn perthynas â rhywedd. Gall hyn fod yn wybodaeth am feysydd megis patrymau cam-drin, egluro gwahanol fathau o gam-drin (megis cam-drin oedolion

[18] https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2022/11/Jessica-Laverack-Prevention-of-future-deaths-report-2022-0344_Published.pdf.
[19] Rowlands, J., Dangar, S. The Challenges and Opportunities of Reviewing Domestic Abuse-Related Deaths by Suicide in England and Wales. J Fam Viol (2023), page 5.
[20] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1143045/domestic-homicide-sentencing-review.pdf, page 51.

teuluol a cham-drin partner agos), gwersi sylweddol sydd wedi dod o ALlD'au a modelau, megis llinell amser 8 cam lladdiadau domestig[21].

**Argymhelliad 6: Dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod canllawiau Statudol ALlD yn egluro ac yn dangos pob ffurf ar gam-drin domestig, gan ddangos natur perthnasoedd, patrymau, a'r tueddiadau sy'n arwain at laddiadau domestig neu farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, er mwyn sicrhau bod marwolaethau'n cael eu cyfeirio ar gyfer ALlDau a bod y panel yn eu deall.**

## Hyfforddiant

Ni ddylid cyflwyno diffiniad statudol cam-drin domestig a diweddaru canllawiau statudol mewn seilo, rhaid i hyn ddigwydd ar y cyd â hyfforddiant arbenigol ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Er bod diffiniad statudol o gam-drin domestig bellach yn bodoli, mae diffyg dealltwriaeth sylweddol pobl broffesiynol yn parhau, ynghyd â bylchau mewn ymarfer. Ni ddylai hyfforddiant ddigwydd yn fympwyol a dylai fod yn seiliedig ar fframwaith glir gan gynnwys deddfwriaeth neu ganllawiau statudol, ar gyfer cadeiryddion annibynnol, paneli adolygu[22] ac ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Credwn y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu gan sefydliadau cam-drin domestig arbenigol, fel arbenigwyr yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rhaid darparu hyfforddiant ar groestoriadedd a gallu cymdeithasol yn ogystal, er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o'r ffyrdd y mae'r rhain yn croestorri, sut y gallant weithredu fel rhwystrau i ddioddefwyr trais domestig, a sut y gall y troseddwr eu defnyddio i'w arfogi.

**Argymhelliad 7: Ynghyd â chyflwyno'r diffiniad statudol o gam-drin domestig, mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref sicrhau bod fframwaith hyfforddi arbenigol gwydn yn ei le o fewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol, er mwyn adeiladu dealltwriaeth pobl broffesiynol ac iddynt adnabod gwahanol fathau o gam-drin. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys elfen o groestoriadedd a hyfedredd diwylliannol.**

## Deddfwriaeth Bresennol

[21] https://eprints.glos.ac.uk/6896/1/6896%20Monckton-Smith%20%282019%29%20Intimate%20Partner%20Femicide%20using%20Foucauldian......pdf.
[22] https://link.springer.com/article/10.1007/s10896-023-00492-z.

**Mae Deddf Trais, Trosedd a Dioddefwyr Domestig 2004, Adran 9, Rhan 1 yn nodi y dylai Adolygiad Lladdiad Domestig gael ei gynnal pan fo:**
*"marwolaeth person sydd yn 16 oed neu fwy wedi deillio, neu'n ymddangos fel pe bai wedi deillio, o drais, cam-drin neu esgeulustod gan*

*(a) person y mae'n perthyn iddo neu yr oedd neu roedd wedi bod mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu*
*(b) aelod o'r un aelwyd ag ef*

*ac y dylid ei gynnal â'r bwriad o nodi gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth"*

**Mae Adran 1 Deddf Cam-Drin Domestig 2021 yn diffinio cam-drin domestig fel:**

*(2) Mae ymddygiad person ("A") at berson arall ("B") yn "gam-drin domestig" os yw—*
*(a)A a B ill dau yn 16 oed neu fwy ac yn gysylltiedig â'i gilydd yn bersonol, a*
*(b) yr ymddygiad yn gamdriniol.*

*(3) Mae ymddygiad yn "gamdriniol" os yw'n cynnwys unrhyw rai o'r canlynol-*
*(a) cam-drin corfforol neu rywiol*
*(b) ymddygiad treisiol neu fygythiol*
*(c) ymddygiad rheolaethol neu orofdaethol;*
*(d) cam-drin economaidd (gweler isadran (4));*
*(e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall;*
*ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth os yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gyfres o ymddygiad.*

*(4) Ystyr "cam-drin economaidd" yw ymddygiad sydd ag effaith niweidiol sylweddol ar allu B i—*
*(a) gaffael, defnyddio neu gadw arian neu eiddo arall, neu*
*(b) sicrhau nwyddau neu wasanaethau*

*(5) At ddibenion y Ddeddf hon gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "at" B er gwaethaf y ffaith ei fod yn cynnwys ymddygiad a gyfeirir at berson arall (er enghraifft plentyn B)*

*(6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at fod yn gamdriniol at berson arall i'w darllen yn unol â'r adran hon.*

*(7) Ar gyfer ystyr "cysylltiad personol" gweler adran 2.*

**Mae Adran 2 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn diffinio "cysylltiad personol" fel:**

*(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae gan ddau berson "gysylltiad personol" â'i gilydd os oes unrhyw rai o'r canlynol yn gymwys —*
*(a) maent, neu maent wedi bod yn briod â'i gilydd*
*(b) maent, neu maent wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd*
*(c) maent wedi cytuno i briodi ei gilydd (boed y cytundeb wedi'i derfynu neu beidio)*
*(d) mae ganddynt gytundeb partneriaeth sifil (boed y cytundeb wedi'i derfynu neu beidio);*
*(e) maent, neu maent wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd*
*(f) mae ganddynt, neu bu amser pan fu gan y ddau ohonynt, berthynas rieniol mewn perthynas â'r un plentyn (gweler isadran 2)*
*(g) maent yn perthyn i'w gilydd.*

*(2) At ddibenion isadran (1)(f) mae gan berson berthynas rieniol mewn perthynas â phlentyn-*
*(a) os yw'r person yn rhiant i'r plentyn*
*(b) os oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.*

*(3) Yn yr adran hon—*
*"plentyn" yw person dan 18 oed*
*Mae i "cytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a geir yn adran 73 Deddf Partneriaeth Sifil 2004*
*Mae i "cyfrifoldeb rhieniol" yr un ystyr ag yn Neddf Plant 1989 (gweler adran 3 y Ddeddf honno)*
*Mae i "perthynas" yr un ystyr ag a geir yn adran 63(1) Deddf Cyfraith Teulu 1996.*

*Confensiwn Enwi Adolygiadau Lladdiad Domestig*

**Gall yr enw 'Adolygiad Lladdiad Domestig' fod yn gamarweiniol pan nad yw'r farwolaeth yn yr adolygiad wedi ei ddyfarnu'n lladdiad (e.e hunanladdiad neu farwolaeth heb esboniad).**

5. **Ydych chi'n ffafrio ail-enwi 'Adolygiadau Lladdiad Domestig'?**

☒ Ydym
☐ Nac Ydym
☐ Ddim yn gwybod
Esboniwch eich rhesymau'n gryno

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu y dylid defnyddio term arall ar gyfer hunanladdiadau neu farwolaethau heb esboniad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Fodd bynnag, ni ddylai'r term hwn gael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun a dylai fod cyfrifoldeb pellach i sicrhau bod y mathau hyn o farwolaethau yn cael eu nodi bob tro. Mae lladdiadau domestig wedi bod yn ganolbwynt pwysig o ran sylw academaidd, polisi ac ymarfer, ond nid yw marwolaethau drwy hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig wedi cael fawr ddim sylw[23]. Mae'r gwersi, yn enwedig o hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, yn hanfodol er mwyn deall sut y gellir osgoi'r rhain a sut y gall afiechyd meddyliol fod yn ganlyniad byw gyda cham-drin domestig. Tra bod Llywodraeth y DU wedi nodi eu hymrwymiad i wella eu gwybodaeth o hunanladdiadau yn dilyn cam-drin domestig ac i flaenoriaethu atal [24], mae "dioddefwyr cudd cam-drin domestig yn cael eu gadael heb eu cyfrif a heb eu cydnabod"[25]. Mae Agenda Alliance wedi nodi bod menywod sydd wedi profi cam-drin gan bartner 3 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi ceisio lladd eu hunain yn y flwyddyn

[23] https://link.springer.com/article/10.1007/s10896-023-00492-z, page 1.
[24] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1064427/E02735263_Tackling_Domestic_Abuse_CP_639_Accessible.pdf, page 11 and 15.
[25] https://www.agendaalliance.org/documents/138/Underexamined_and_Underreported_Briefing.pdf, page 14.

diwethaf[26]. Gydag amcangyfrif fod oddeutu 3 menyw yn y DU yn lladd eu hunain bob wythnos i ddianc oddi wrth gam-drin domestig[27], mae'n anodd deall sut y pennir na fu unrhyw niwed a allai fod wedi achosi hunanladdiad mewn llawer o achosion, er bod y farn arbenigol wedi nodi nad oedd yr effaith seicolegol wedi deillio o salwch seiciatryddol ond yn hytrach yn gyson â cham-drin domestig[28]. Er mwyn sicrhau bod marwolaethau yn dilyn cam-drin domestig yn cael eu nodi a bod gwersi yn cael eu dysgu, mae'n rhaid cael gwell dealltwriaeth o'r effaith sylweddol mae cam-drin domestig yn ei gael ar iechyd meddwl dioddefwyr[29]. Mae'r sawl sy'n arwain ar achosion o gam-drin domestig o fewn yr heddlu wedi nodi eu bod yn teimlo'n hyderus wrth adnabod marwolaethau heb esboniad a hunanladdiad tybiedig dioddefwr pan fu hanes o gam-drin domestig[30], fodd bynnag mae hyn yn golygu bod y dioddefwyr hynny nad ydynt wedi datgelu cam-drin yn anhysbys. Mae peth ymchwil wedi profi bod risg hunanladdiad yn uwch ar gyfer menywod o leiafrifoedd ethnig a'r rheiny sy'n fudwyr/ffoaduriaid, ac sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig[31]. Dyma ganlyniad tebygol arferion diwylliannol neu'r cysyniad o anrhydedd a chywilydd[32]. Mae'n rhaid cydnabod y gwahanol rwystrau sy'n atal dioddefwyr rhag datgelu cam-drin tra eu bod yn fyw, a pham nad oes o bosibl unrhyw gofnod o ddatgeliad.

Mae'r gwersi a ddaw o adolygiadau hunanladdiad sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn bwysig er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud pan fo bylchau a diffyg adnabyddiaeth o gam-drin. Mae'n rhaid diwygio'r canllawiau statudol sy'n mynd law yn llaw â'r ddeddfwriaeth ALlD er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o gam-drin domestig sy'n gysylltiedig â hunanladdiadau a sut y gellir adnabod y rhain. Mae'n rhaid sicrhau hyfforddiant digonol ar yr uchod ac ar y cysylltiad rhwng cam-drin domestig, trawma, ac iechyd meddwl, gan greu yn ogystal ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng hunanladdiad a'r rheiny o gefndiroedd sydd wedi'u hymyleiddio.

**Argymhelliad 8: Mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref sicrhau bod canllawiau statudol yn cael eu diweddaru er mwyn sicrhau bod hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael eu nodi, a bod gwersi allweddol yn deillio o'r adolygiad.**

**Argymhelliad 9: Dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod fframwaith hyfforddi arbenigol gwydn yn ei le er mwyn cynyddu dealltwriaeth pobl broffesiynol o hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a'r cysylltiad rhwng cam-drin domestig, trawma ac iechyd meddwl. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys adran ar groestoriadedd a hyfedredd diwylliannol.**

---

[26] ibid.
[2727] https://nspa.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/New-Suicide-Report2c-Refuge-and-University-of-Warwick.pdf, page 7.
[28] R v Dhaliwal [2006] EWCA Crim 1139.
[29] https://www.vkpp.org.uk/assets/Files/Domestic-Homicides-and-Suspected-Victim-Suicides-2021-2022/VKPP-Domestic-Homicides-and-Suspected-Victim-Suicides-2020-2021.pdf, page 13.
[30] ibid, page 20.
[31] https://nspa.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/New-Suicide-Report2c-Refuge-and-University-of-Warwick.pdf, page 12.
[32] ibid.

**6. Os yw 'Adolygiadau Lladdiad Domestig' yn cael eu hailenwi, a ddylai'r Llywodraeth:**

☐ Gyflwyno'r term 'Adolygiad Marwolaeth Cam-drin Domestig' (*Domestic Abuse Fatality Review*) ar gyfer achosion o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig nad ydynt yn lladdiadau, gan gadw'r term 'Adolygiad Lladdiad Domestig' ar gyfer lladdiadau domestig.
☐ Ailenwi pob 'Adolygiad Lladdiad Domestig' yn 'Adolygiad Marwolaeth Cam-Drin Domestig'
☒ Ddefnyddio term (neu dermau) arall i adlewyrchu'r rhychwant o farwolaethau sy'n dod o dan gwmpas ALlD (rhowch fanylion):

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu y dylai lladdiadau barhau fel 'Adolygiadau Lladdiad Domestig' a dylaid galw marwolaeth heb esboniad neu drwy hunan-laddiad yn 'Farwolaethau'n gysylltiedig â Cham-Drin Domestig'. Byddai Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Cham-Drin Domestig yn cynnwys unrhyw farwolaeth sy'n perthyn neu rywsut yn gysylltiedig â cham-drin domestig[33]. Rydym yn ymwrthod â'r syniad o ddefnyddio'Adolygiad Marwolaeth Cam-drin Domestig' gan ein bod yn credu nad yw'r gair 'Marwolaeth/Fatality' yn cwmpasu hyd a lled a difrifoldeb y mater. Mae'r diffiniad o 'fatality' gan y Cambridge Dictionary fel a ganlyn: 'A death caused by an accident or by violence''[34]. Nid ydym yn credu fod defnyddio term sy'n disgrifio marwolaeth fel rhywbeth sy'n digwydd drwy ddamwain yn gywir. Nid yw'r cynodiad mai damwain yw marwolaeth yn pwysleisio fod lladdiadau domestig yn aml wedi'u cynllunio, nac ychwaith yn adlewyrchu difrifoldeb y weithred. Mae'n diddymu euogrwydd y troseddwr ac nid yw'n adlewyrchu bod natur y farwolaeth yn ganlyniad uniongyrchol cam-drin domestig. Mae iaith yn bwysig iawn, ac mae defnydd y gair lladdiad neu 'homicide' yn adlewyrchu natur ddifrifol y farwolaeth. Mae'n hanfodol fod teulu a ffrindiau dioddefwyr lladdiadau a marwolaethau'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn teimlo nad yw natur yr amgylchiadau anodd y maent yn delio â nhw yn cael ei leihau, ac nad oes unrhyw beth yn cael ei dynnu oddi wrth ddifrifoldeb gweithred ffiaidd y troseddw(y)r a'r niwed sydd wedi ei wneud.

**Argymhelliad 10: Dylai'r Swyddfa Gartref gadw'r term 'Adolygiad Lladdiad Domestig' ar gyfer lladdiadau, ac ar gyfer marwolaethau heb esboniad a hunanladdiad dylid cyflwyno'r term 'Marwolaethau'n Ymwneud â Cham-Drin Domestig'.**

[33] https://link.springer.com/article/10.1007/s10896-023-00492-z.
[34] https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/fatality.


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962
Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government